Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Mis/Blwyddyn cyhoeddi: Awst 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2563A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn dal i fod mewn sefyllfa dda i reoli ei gynaliadwyedd ariannol 6

Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru 6

Mae trefniadau cynllunio ariannol y Cyngor wedi bod o fudd iddo hyd yma, ac fe all adeiladu ar hynny i ystyried sut y mae'n rheoli'r bwlch yn ei gyllideb dros y tymor canolig 7

Mae gan y Cyngor lefel iach o gronfeydd wrth gefn ac mae'n eu defnyddio i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol 10

Mae gan y Cyngor hanes o ddarparu ei wasanaethau o fewn ei gyllideb refeniw ar y cyfan 12

Mae'r Cyngor yn adnabod ac yn cyflawni arbedion yn gynnar ac yn cynnwys y rhain wrth ystyried ei ofynion o ran y gyllideb sylfaenol 13

Mae sefyllfa hylifedd y Cyngor yn llai nag 1 ond nid yw'r Cyngor yn ystyried bod hyn yn risg arwyddocaol gan bod ei gyfradd benthyca o fewn lefelau ei ofynion cyllido cyfalaf 14

# Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham

1 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn gan bod cynaliadwyedd ariannol yn dal i fod yn risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol o ran adnoddau gostyngol ar gyfer llywodraeth leol ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau. Fe gynhaliom ni brosiect tebyg yn 2019-20, cyn pandemig COVID-19.

2 Cynhaliwyd ein hasesiad yn 2020-21 o gynaliadwyedd ariannol cynghorau mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau lleol. Roedd Cam 1 yn seiliedig ar: y sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau ar gyfer chwarter 2 yn 2020-21. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 fe gyhoeddom ni adroddiad cryno cenedlaethol – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**[1]. Canfuom fod cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond bod cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.

3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a dwfn ar gyllid y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Roedd yr adroddiad cryno'n nodi sefyllfa sylfaenol lefel uchel, gan gynnwys sefyllfa cynghorau lleol o ran eu cronfeydd wrth gefn cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol a maint yr her a ddisgwylid wrth edrych tua'r dyfodol.

4 Mae'r adroddiad hwn yn benllanw ar gam 2 ein gwaith i asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn cynhyrchu adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

5 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2021.

[1] Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19, Hydref 2020.

## Cynigion ar gyfer gwella

**Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella**

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| **Tybiaethau cynllunio**<br>C1 Mae angen i'r Cyngor fod yn sicr bod ganddo gynlluniau wrth gefn i allu rheoli senarios llai cadarnhaol nag y cynlluniodd ar eu cyfer yn ei drefniadau cynllunio ariannol tymor canolig. |
| **Cynllunio ariannol tymor canolig**<br>C2 Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt am ystâd, gweithlu a galluoedd digidol y Cyngor ac mae angen ffurfioli'r rhain yn nhrefniadau cynllunio ariannol y Cyngor. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn dal i fod mewn sefyllfa dda i reoli ei gynaliadwyedd ariannol

### Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

**Mae'r adran hon yn nodi'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.**

6 Canfuom fel a ganlyn:

- mae'r mwyafrif o wariant ychwanegol y Cyngor a'r incwm a gollwyd ganddo o ganlyniad i COVID-19 wedi cael ei ariannu â chyllid gan Lywodraeth Cymru ac felly nid ydynt wedi ansefydlogi cydnerthedd ariannol y Cyngor.
- mae cynllun ariannol tymor canolig (CATC) y Cyngor, a ddiweddarwyd ym mis Hydref 2020, yn tybio y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu unrhyw wariant neu golledion incwm sy'n gysylltiedig â COVID-19.
- mae'r Cyngor wedi ystyried effaith y pandemig yn ei strategaeth o ran y gyllideb ar gyfer 2021-22. Er enghraifft, mae wedi ystyried costau ychwanegol yn ei wasanaethau rheoli gwastraff a diogelu'r cyhoedd, wedi cynyddu ei gynllun Ardrethi Annomestig Cenedlaethol lleol ac wedi rhewi rhai o'i ffioedd a thaliadau. Fodd bynnag, mae'n dal i ddibynnu ar barhad Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn bod y pandemig wedi cael effaith arwyddocaol ar yr ardal a bod angen iddo ystyried y goblygiadau tymor canolig a hir yn ei waith cynllunio strategol. Rydym yn disgwyl i hyn gael ei adlewyrchu yn ei CATC wedi'i ddiweddaru ym mis Gorffennaf 2021.
- o ganlyniad i gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi achub ar y cyfle i wneud buddsoddiadau pellach o oddeutu £6 miliwn yn ei raglen gyfalaf yn unol â'i flaenoriaethau corfforaethol.

**Arddangosyn 2: Ffigyrau'r Cyngor ar gost COVID-19 yn ystod 2020-21**

Mae'r tabl isod yn dangos gwariant ychwanegol y Cyngor a'r incwm a gollwyd ganddo yn ystod 2020-21 o ganlyniad i COVID-19 yn ôl yr amcangyfrifon, a faint o hyn a liniarwyd gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| Y swm ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi ei wario o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £37 miliwn |
| Swm yr incwm y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi'i golli o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £14 miliwn |
| Swm y cyllid ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ei gael gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19. | £51 miliwn |
| Cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21, ar ôl ystyried y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. | £2.041 miliwn |

## Mae trefniadau cynllunio ariannol y Cyngor wedi bod o fudd iddo hyd yma, ac fe all adeiladu ar hynny i ystyried sut y mae'n rheoli'r bwlch yn ei gyllideb dros y tymor canolig

### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

7 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod lefel debygol y cyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau diweddar a'r pwysau a ddisgwylir o ran cyllid ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig adnabod sut y mae'r Cyngor yn bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, a sut y mae'n bwriadu cwrdd â bylchau a ragamcanir o ran cyllid.

Canfuom fel a ganlyn:

- mae dull cynllunio ariannol y Cyngor wedi bod o fudd iddo hyd yma. Mae'n adnabod arbedion yn gynnar ac yn cynnwys y rhain wrth ystyried ei gyllidebau sylfaenol. Mae wedi cronni lefel iach o gronfeydd wrth gefn.
- mae'r Cyngor yn adolygu ei gynllun ariannol tymor canolig (CATC) yn flynyddol. Cafodd diweddariad i'r CATC ar gyfer y cyfnod rhwng 2021-22 a


2024-25 ei ystyried gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r CATC wedi'i ddiweddaru i fod i gael ei ystyried gan y Cyngor ym mis Medi.

- fel a ddangosir yn **Arddangosyn 3**, mae'r diweddariad i'r CATC a ystyriwyd ym mis Gorffennaf 2021 yn nodi bod gan y Cyngor gyfanswm bwlch o ran cyllid a ragamcanir ar gyfer y tair blynedd rhwng 2022-23 a 2024-25 o £39.191 miliwn (yn seiliedig ar setliad o 3% a chynnydd blynyddol o 2.65% yn y Dreth Gyngor).
- ar gyfer 2021-22, mae'r Cyngor wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd o £4.6 miliwn, y mae wedi'u tynnu allan o'i ofynion o ran y gyllideb sylfaenol. Ar ôl cyfres o fuddsoddiadau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r gyllideb ar gyfer 2021-22, mae'r Cyngor wedi adnabod bwlch sy'n weddill o oddeutu £711,000. Mae'n bwriadu defnyddio'i gyllid pontio i fynd i'r afael â'r bwlch yma.
- mae'r Cyngor yn adnabod risgiau a phwysau allweddol o ran y galw ac yn adlewyrchu ei flaenoriaethau corfforaethol a chynaliadwyedd ei wasanaethau yn ei drefniadau cynllunio ariannol. Mae'r Cyngor wedi adnabod blaenoriaethau buddsoddi yn erbyn pob un o'i amcanion strategol. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynglŷn ag ystâd, gweithlu a strategaethau digidol y Cyngor a byddem yn disgwyl gweld y rhain yn cael eu ffurfioli yn ei drefniadau cynllunio ariannol.
- mae'r Cyngor wedi nodi ar lefel uchel sut y mae'n bwriadu cau'r bwlch yn ei gyllideb dros y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys rhaglen trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol, parhau i gyflawni arbedion effeithlonrwydd, a chynyddu i'r eithaf y cyfleoedd mewn meysydd megis technoleg ddigidol a masnacheiddio.
- er nad yw'r Cyngor wedi nodi'n fanwl sut y bydd yn cau'r bwlch yn ei gyllideb dros dymor y CATC, mae mewn sefyllfa ariannol iach ac mae nifer o opsiynau ar gael iddo i'w helpu i gau'r bwlch. Mae gan y Cyngor hanes o fynd i'r afael â bylchau blaenorol yn ei gyllideb. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn hyderus y bydd yn gallu rheoli'r bwlch yn ei gyllideb dros y tymor canolig. Ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw bryderon ynghylch cynaliadwyedd ariannol y Cyngor.
- mae'r CATC wedi'i ddiweddaru'n modelu'r bwlch yn y gyllideb ar gyfer y cyfnod rhwng 2022-23 a 2024-25 yn erbyn tri senario gwahanol o ran y grant cynnal refeniw: +2%, +3% a +4%. Mae'r CATC wedi'i ddiweddaru hefyd yn nodi'r bwlch yn y gyllideb pe bai grant cynnal refeniw sy'n seiliedig ar setliad arian gwastad (0%). Mae'r Cyngor wedi modelu'r bwlch yn ei gyllideb gan dybio y bydd cynnydd blynyddol o 2.65% yn y Dreth Gyngor.
- roedd setliad terfynol y Cyngor ar gyfer 2021-22 yn dangos cynnydd o 3.8%, o fewn yr ystod o senarios yr oedd wedi'u modelu. Mae ei gyllideb yn seiliedig ar rewi cyflogau llywodraeth leol gyda darpariaeth o oddeutu £1 miliwn ar gyfer codiadau cyflog i staff ar gyflogau islaw £24,000. Mae'r Cyngor wedi achub ar y cyfle i sefydlu cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar gyfer codiadau cyflog a bydd angen iddo ystyried hyn fel rhan o'i drefniadau cynllunio ariannol tymor canolig.

- yn hanesyddol, mae tybiaethau'r Cyngor hyd yma wedi bod yn realistig. Roedd y setliad terfynol ar gyfer 2021-22 o fewn yr ystod o dybiaethau yr oedd y Cyngor wedi cynllunio ar eu cyfer. Rydym yn gwerthfawrogi'r lefelau o ansicrwydd ynghylch tybiaethau; mae gwahaniaeth o 1% yn y setliad yn cyfateb i ryw £3.9 miliwn i'r Cyngor. Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn golygu ei fod yn hyderus y gall ymdopi ag amrywiadau mewn setliadau yn y tymor byr, ond mae angen i'r Cyngor fod yn sicr bod ganddo gynlluniau wrth gefn i allu ymdopi â senarios llai cadarnhaol nag y cynlluniodd ar eu cyfer yn ei drefniadau cynllunio tymor canolig.

**Arddangosyn 3: mae gan y Cyngor gyfanswm bwlch o ran cyllid a ragamcanir ar gyfer y tair blynedd rhwng 2022-23 a 2024-25 o £39.191 miliwn**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer y tair blynedd ganlynol.




Ffynhonnell: Diweddariad i'r cynllun ariannol tymor canolig a ystyriwyd gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2021 (yn seiliedig ar setliad o 3% a chynnydd blynyddol o 2.65% yn y Dreth Gyngor)

# Mae gan y Cyngor lefel iach o gronfeydd wrth gefn ac mae'n eu defnyddio i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol

## Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

8 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n rhwyd ddiogelwch bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig hefyd i gefnogi mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw, sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau'r cronfeydd wrth gefn, yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

Canfuom fel a ganlyn:

- yn ein hadroddiad ar gynaliadwyedd ariannol yn 2019-20, canfuom fod gan y Cyngor lefel resymol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy.
- mae ein hadolygiad mwy diweddar wedi canfod bod cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi cynyddu o £138.9 miliwn yn 2016-17 i £171.3 miliwn ar ddiwedd mis Mawrth 2021.
- ym mis Chwefror 2020, defnyddiodd y Cyngor £1.5 miliwn o falans ei gronfa gyffredinol i'w helpu i reoli costau o ganlyniad i effaith Storm Dennis. Mae defnyddio'i gronfeydd wrth gefn yn y ffordd yma'n dangos parodrwydd a gallu'r Cyngor i ddefnyddio'i gronfeydd wrth gefn i ariannu pwysau nas rhagwelwyd. Roedd hyn yn golygu bod balans ei gronfa wrth gefn yn is na'r lefel o £10 miliwn a argymhellir gan Swyddog Adran 151 y Cyngor. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor gynlluniau i ail-lenwi'r gronfa wrth gefn hon yn ystod y tair blynedd nesaf .
- mae gan y Cyngor Gronfa wrth Gefn Cynllunio Ariannol Tymor Canolig a Thrawsnewid Gwasanaethau, y mae'n ei defnyddio fel cyllid pontio i gefnogi ei strategaeth ar gyfer y gyllideb ar y cyfan. Mae wedi cynyddu'r gronfa hon yn ystod 2020-21 ac yn bwriadu defnyddio £0.711 miliwn o'r gronfa wrth gefn hon i'w helpu i lenwi'r bwlch o ran cyllid yn 2021-22, gan leihau'r gronfa wrth gefn hon i tua £3.6 miliwn. Eto mae'n hyderus, trwy adolygu ei ofynion o ran y gyllideb sylfaenol a chyflawni arbedion effeithlonrwydd yn gynnar, y bydd yn gallu ail-lenwi'r gronfa wrth gefn hon yn ystod oes y CATC.

**Arddangosyn 4: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2020-21 a'r pedair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau [2] | 472.1 | 477.1. | 491.5. | 505.6 | 505.8 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ miliynau [3] | 138.9 | 143.5 | 119.5 | 119.9 | 171.3 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel % o gost net gwasanaethau [4] | 29.4% | 30.1% | 24.3% | 23.7% | 33.9% |
| Safle o'i gymharu â chynghorau eraill Cymru | 3/22 | 3/22 | 6/22 | 6/22 | [Cymhar-iaeth 2020-21 ddim ar gael eto] |


Ffynonellau: datganiad cyfrifon

[2] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon.

[3] Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon.

[4] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 5: cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau**




| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Uchaf yn y flwyddyn | 33.5% | 34.4% | 33.6% | 33.6% | 33.4% |
| Rhondda Cynon Taf | 28.6% | 29.4% | 30.1% | 24.3% | 23.7% |
| Isaf yn y flwyddyn | 10.4% | 8.8% | 7.2% | 6.1% | 4.2% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

## Mae gan y Cyngor hanes o ddarparu ei wasanaethau o fewn ei gyllideb refeniw ar y cyfan

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

9 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Mae cyngor sy'n methu â rhagweld a chynllunio gwariant yn gywir yn achosi risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a all beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

Canfuom fel a ganlyn:

- mae'r Cyngor yn dal i fod â hanes da o reolaeth ariannol ac fel rheol mae'n darparu ei wasanaethau o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt.
- mae sefyllfa alldro ddrafft y Cyngor ar gyfer 2020-21 yn rhagweld gorwariant o £0.204 miliwn yn erbyn ei gyllideb refeniw. Mae hyn ar ôl i'r Cyngor drosglwyddo arian i gronfeydd wrth gefn. Mae'r Cyngor wedi cyflawni gwarged refeniw o tua £52.2 miliwn, y mae wedi'i drosglwyddo i'w gronfeydd wrth gefn refeniw defnyddiadwy. Fel cynghorau eraill, cafodd gyllid ychwanegol sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ers hynny mae'r Cyngor wedi cynyddu lefel ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fwy na £60 miliwn yn 2020-21. Mae hyn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn cyfalaf a refeniw.
- ceir gorwariannau mewn rhai gwasanaethau allweddol: £2.464 miliwn yn ei wasanaethau diogelu a chymorth i blant a gorwariant o oddeutu £1.3 miliwn

yn y gwasanaethau oedolion. Ceir gorwariant o £0.602 miliwn hefyd yn y gwasanaethau gwastraff. Mae'r Cyngor yn deall achosion y gorwariannau hyn ac yn amlygu'r pwysau parhaus ar y gyllideb yn y gwasanaethau oedolion a phlant yn ei adroddiad ar y gyllideb ar gyfer chwarter 4 a'i CATC wedi'i ddiweddaru ym mis Gorffennaf. Mae cofrestr risgiau corfforaethol y Cyngor yn nodi camau lliniarol ar gyfer rheoli ei wasanaethau oedolion a chymdeithasol.

**Arddangosyn 6: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net**

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant yng nghyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y pedair blynedd ddiwethaf a'r flwyddyn hyd yma o ran y sefyllfa ar ddiwedd mis Rhagfyr 2020.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net Wreiddiol £ miliynau | 454.8 | 458.9 | 471.6 | 483.5 | 508.7 |
| Alldro Refeniw yr Adroddwyd Arno | 454.6 | 458.9 | 471.8 | 483.8 | 509.0 |
| Trosglwyddiadau (i)/o gronfeydd wrth gefn | (5.9) | (0.8) | 24.7 | (0.5) | (52.2) |
| Swm y (gwarged)/gorwariant ar y cyfan | (-6.1) | (0.8) | 24.9 | (0.2) | (52.0) |
| Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net | -1.3% | -0.2% | 5.3% | -0.0% | -10.2 |

Ffynhonnell: datganiad cyfrifon ar gyfer 2016-17 – 2019-20 ac adroddiad alldro drafft ar gyfer 2020-21

## Mae'r Cyngor yn adnabod ac yn cyflawni arbedion yn gynnar ac yn cynnwys y rhain wrth ystyried ei ofynion o ran y gyllideb sylfaenol

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

10 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny'n ddiweddarach, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle na chaiff cynlluniau arbedion eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan hefyd gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen mewn blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a bod angen i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai

na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

Canfuom fel a ganlyn:

- mae'r Cyngor wedi parhau i adnabod arbedion yn gynnar ac i ymgorffori'r rhain yn ei ofynion o ran y gyllideb sylfaenol dim ond pan fyddant wedi cael eu sicrhau. Mae'r dull hwn wedi bod yn effeithiol hyd yma ac mae'r Cyngor wedi gallu cyflawni lefelau sylweddol o arbedion a chynnal lefel iach o gronfeydd wrth gefn.
- mae strategaeth y Cyngor ar gyfer y gyllideb 2021-22 yn nodi bod y Cyngor wedi adnabod £4.6 miliwn o arbedion effeithlonrwydd y mae wedi'u tynnu allan o'r gofynion o ran y gyllideb sylfaenol ar gyfer 2021-22.
- ers 2017-18, mae'r Cyngor wedi adnabod oddeutu £42 miliwn o arbedion effeithlonrwydd, y mae wedi'u tynnu allan o'r gofynion o ran y gyllideb sylfaenol.
- yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb, fe wnaeth swyddog Adran 151 y Cyngor amlygu her parhau i gyflawni arbedion effeithlonrwydd sylweddol heb effeithio ar wasanaethau rheng-flaen. Fodd bynnag, mae'n amlwg mai blaenoriaeth y Cyngor o hyd yw gwarchod ei wasanaethau rheng-flaen ac y bydd yn parhau i archwilio arbedion effeithlonrwydd amgen.

## Mae sefyllfa hylifedd y Cyngor yn llai nag 1 ond nid yw'r Cyngor yn ystyried bod hyn yn risg arwyddocaol gan bod ei gyfradd benthyca o fewn lefelau ei ofynion cyllido cyfalaf

### Pam fod sefyllfa hylifedd y Cyngor yn bwysig

11 Pam ei bod yn bwysig pwyso a mesur asedau cyfredol o'i gymharu â rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd):

- mae'n arwydd o'r modd y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i archwilio pa un a yw sefydliadau'n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, mae hyn yn annhebygol o fod yn risg i gynghorau o ystyried eu gallu i gymryd benthyciadau byrdymor. Fodd bynnag, mae hefyd yn gweithredu fel dangosydd sy'n dynodi sut y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau i gwrdd â'u rhwymedigaethau.
- gall fod costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthyciadau byrdymor i dalu dyledion.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd uchel iawn ystyried a ydynt yn rheoli eu hasedau cyfredol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Canfuom fel a ganlyn:

- ar ddiwedd 2019-20, roedd gan y Cyngor gymhareb hylifedd o 0.8, sydd wedi gostwng o 0.9 yn 2015-16. Mae cymhareb hylifedd y Cyngor ar gyfer

2020-21 yn sefyllfa ychydig bach yn well, ond mae'r dadansoddiad o'r duedd yn **Arddangosyn 7** isod yn dangos bod y gymhareb wastad wedi bod yn llai nag 1.

- mae cymhareb hylifedd o lai nag 1 yn golygu bod gwerth ei asedau cyfredol yn llai na'i rwymedigaethau cyfredol.
- nid yw'r Cyngor yn ystyried bod ei gymhareb hylifedd yn risg arwyddocaol, sy'n gyson â'i strategaeth Rheoli Trysorlys, ac nid yw wedi profi unrhyw faterion o ran hylifedd. Mae ei gyfradd benthyca islaw lefel ei ofyniad cyllido cyfalaf ac o fewn ei derfynau benthyca darbodus.

**Arddangosyn 7: cymhareb cyfalaf gweithio rhwng 2015-16 a 2020-21**

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Cyfredol [5] | 90.3m | 73.0m | 79.7m | 107.7m | 130.4m | 164.4m |
| Rhwymedigaethau Cyfredol [6] | 104.9m | 139.5m | 174m | 193.5m | 171m | 167.7m |
| Cymhareb Cyfalaf Gweithio | 0.9 | 0.5 | 0.5 | 0.6 | 0.8 | 0.98 |

Ffynonellau: Datganiad Cyfrifon ac adroddiad alldro drafft mis Gorffennaf ar gyfer 2020-21

[5] Mae Asedau Cyfredol yn cynnwys: Buddsoddiadau Byrdymor; Asedau a ddelir i'w gwerthu; Rhestrau Eiddo; Dyledwyr Byrdymor; ac Arian Parod a'i gyfwerth.

[6] Mae Rhwymedigaethau Cyfredol yn cynnwys: Benthyciadau Byrdymor; Credydwyr Byrdymor; a Darpariaethau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.